CYDBWYLLGOR ARCHIFAU MORGANNWG

DYDD GWENER, 16 MAWRTH 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Cowan(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Burnett, Cunnah, griffiths, Henshaw, Jones, Keith Jones, Y Cynghorydd Wendy Lewis, Smith, Colbran, Robson a/ac K Thomas CVO, JP |

24 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr A Higgs, E George, R Lewis, H Jarvie ac A Robertson.

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Cynghorydd Keith Jones o Gaerdydd a oedd yn aelod newydd o'r Cydbwyllgor a gwnaed cyflwyniadau.

Dymunai'r Cadeirydd nodi llongyfarchiadau'r Pwyllgor i Mrs Kate Thomas a oedd wedi derbyn teitl Bonesig Bennaeth – Urdd Fictoraidd Frenhinol.

25 : DATGANIAD BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw rai.

26 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Medi 2017 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2017 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd ar yr amod y nodir bod y Cynghorydd Colbran yn bresennol.

27 : ADRODDIAD AR GYFER Y CYFNOD 1 RHAGFYR 2017 TAN 28 CHWEFROR 2018

Rhoddwyd diweddariad i'r aelodau am waith a llwyddiannau'r gwasanaeth rhwng 1 Rhagfyr 2017 a 28 Chwefror 2018; y Bwrdd Gwaith Amcanion , Atodiadau sy'n rhestru derbyniadau nodedig; gwybodaeth am gasgliadau; ac ymholiadau a gwybodaeth ddiddorol am Bolisi Cadwraeth Ddigidol Cymru.

Yn gryno, hysbyswyd yr aelodau y byddai partneriaethau'n parhau i ffynnu ac estyn gallu'r gwasanaeth i ymgysylltu â'i holl gymunedau. Mae targedau'r flwyddyn wedi cael eu bwrw, gan mwyaf, ac yn aml rhagorwyd arnynt a hynny trwy ymroddiad sefydliad staff sefydlog â ffocws a charfan frwd o wirfoddolwyr. Mae enw'r Archifau am fod yn arweinydd yng Nghymru yn cryfhau.

Diolchodd y Cadeirydd i Archifydd Morgannwg eto am adroddiad cynhwysfawr a manwl.

PENDERFYNWYD: Nodi'r adroddiad.

28 : GWERTHUSO CYNLLUN BLYNYDDOL 2017-2018

Rhoddai'r adroddiad hwn yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am gyflawni'r targedau a bennwyd yng Nghynllun Blynyddol 2018-2018.

Adroddir am y cynnydd tuag at dargedau'r cynllun blynyddol ym mhob cyfarfod o'r Cydbwyllgor. Adroddiad diwedd blwyddyn oedd hwn ar y llwyddiant wrth gyflawni targedau cynlluniedig.

Hysbyswyd yr aelodau y gwnaed cynnydd ym mhob amcan allweddol. Roedd pob aelod o staff wedi cyfrannu'n briodol at ei dargedau. Mae'r cynllun yn offeryn hanfodol ar gyfer nodi ac ailddosbarthu adnoddau sydd ar gael wrth barhau i flaenoriaethu targedau ym mhob rhan o'r gwasanaeth. Nododd aelodau y bu tuedd, fel mewn blynyddoedd blaenorol, i dargedau fethu trwy amgylchiadau y tu allan i reolaeth fewnol gan fod staff gyfrannu at fonitro'r cynllun yn rheolaidd ac yn ymwybodol ac wedi cytuno ar eu targedau.

PENDERFYNWYD: nodi'r cynnydd a wnaed tuag at amcanion allweddol yn y cynllun.

29 : CYNLLUN BLYNYDDOL 2018 - 2019

Dywedwyd wrth yr aelodau y gwnaed cynnydd yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol yn erbyn yr holl dargedau yn y cynllun blynyddol presennol ac y cafodd adroddiad llawn ei gyflwyno i'r Cydbwyllgor.

Nododd yr aelodau fod y strategaeth deirblwydd y cytunwyd arni yn 2015/16 wedi cael ei chwblhau a'i hadolygu o ystyried cyfyngiadau cyllidebol. Disgwylid i'r strategaeth a atodwyd wrth yr adroddiad fod yn berthnasol ar gyfer y 3 blynedd ariannol nesaf. Cynigion yn unig oedd y gwerthusiadau cynlluniedig; byddai gwerthusiad manwl yn cael ei nodi ar gyfer y pwyntiau bwled y mae staff yn gweithio iddynt yn rhan o bob tasg. Atodwyd yr amcanion ar gyfer y cyfnod ynghyd â'r cynllun manwl ar gyfer y flwyddyn bresennol. Lluniwyd y cynllun ar ôl ymgynghori'n llawn â staff a byddai targedau'n cael eu monitro trwy'r flwyddyn.

Dywedwyd wrth yr aelodau mai prin oedd y newid i strategaeth yr Archifau ar gyfer darparu'r gwasanaeth yn y tymor canolig oherwydd y sefyllfa ariannol heriol. Bydd partneriaeth weithredol mewn projectau cenedlaethol a rhanbarthol wedi'u hariannu'n allanol, gan gynnwys Cyfuno ac Uchelgais Diwylliannol, yn ganolog i rannu sgiliau, gwirfoddoli a gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned dros y 2 i 3 blynedd nesaf. Roedd partneriaeth â'r Archifau Seneddol yn parhau, fel yr oedd y project catalogio a chadwraeth a ariennir gan y Wellcome Trust – Gwaed Morgannwg – ac roedd ceisiadau am arian grant i wella casgliadau â blaenoriaeth eisoes wedi cael ei gyflwyno.

Hysbyswyd yr aelodau yr adroddid am dargedau manwl i'r Cydbwyllgor yn yr adroddiadau bob tri mis ynghyd â'r cynnydd a wnaed yn eu herbyn a materion sy'n effeithio ar eu cyflawni. Rhagwelwyd y byddai absenoldeb mamolaeth yn ystod y flwyddyn bresennol.

Amlinellwyd Cynllun Blynyddol 2018-2019.

PENDERFYNWYD: cymeradwyo Cynllun Blynyddol 2018-2019.

30 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF.

15 Mehefin 2018 am 2pm.

Cyflwynodd y Cynghorydd B Jones ei hymddiheuriadau am y cyfarfod nesaf.